**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (37)**

**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2002**

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Ethol i'r Pwyllgorau**
*NDM1250* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 59(2) a (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwr) i'w Bwyllgor Deddfau yn lle Glyn Davies (Ceidwadwr).

*NDM1251* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 36.2, yn ethol William Graham (Ceidwadwr) i Bwyllgor y Ty yn lle Glyn Davies (Ceidwadwr).

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 31; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 31
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.01pm**
**Croesawodd y Llywydd yr ymwelwyr o Malaysia a oedd yn eistedd yn yr oriel gyhoeddus.**

**2.01pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Atebwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**2.50pm**
**Pwynt o drefn yn deillio o'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
**Alun Cairns** ar hyd yr atebion a roddir gan y Prif Weinidog i gwestiynau llafar.

**2.53pm**
**Datganiad: Gwnaed datganiad ar y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol gan y Gweinidog Iechyd**

**3.24pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11 i gymeradwyo** : ***TYNNWYD YN OL***
*NDM1245* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Gan weithredu yn unol â Rheolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

Yn cymeradwyo:

Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Cymru) drafft, y gosodwyd copi ohonynt, ynghyd â Memorandwm Esboniadol, yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2002.

**3.28pm**
**Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002**
*NDM1246* **-** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac yr anfonwyd copïau ohonynt at yr aelodau trwy'r e-bost ar 3 Rhagfyr 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1247* **-** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cymerwyd y Gadair gan y Dirprwy Lywydd**

**3.34pm**
**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2002 (Cymru) 2002**
*NDM1248* **-** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

1.Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002, a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1249* **-** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Tachwedd 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.44pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 19): Trothwy Tâl Athrawon**
*NDM1244 -* Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 19) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.04pm**
**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru**
***NDM 1252*** **- Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Yn pwysleisio bod gweithredu polisi ynni cynaliadwy effeithiol yn hanfodol i ddyfodol Cymru

2. Yn cydnabod bod rhaid i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni fod wrth graidd polisi o'r fath, a bod arbed ynni cartref yn cynnig cyfleoedd pwysig i fynd i'r afael â thlodi tanwydd

3. Yn cydnabod nad yw'r cymorth ariannol presennol ar gyfer arbed ynni yn cyfateb i faint yr her a grëir gan yr hen stoc dai yng Nghymru

4. Yn cefnogi, felly, Ymgyrch y Dwsin Glân ar i Lywodraeth y DU osod ar waith offerynnau ariannol gwell, ynghyd ag offerynnau eraill, i hyrwyddo arbed ynni cartref.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi yn eu lle:

Yn croesawu:

1. Y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni polisi ynni effeithiol a chynaliadwy yng Nghymru;

2. Y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd:

3. Y buddsoddiadau a'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r her y mae'r hen stoc dai yng Nghymru yn ei chreu o ran arbed ynni.

4. Ymgynghoriad diweddar y Trysorlys ar Offerynnau Economaidd i wella effeithlonrwydd ynni yn y cartref, ac yn edrych ymlaen at y Papur Gwyn sydd ar fin ei gyhoeddi.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

2. Yn cydnabod y bydd cynnydd o ran hyrwyddo effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni cartref:

a) Yn mynd i'r gwir afael â mater tlodi tanwydd yn enwedig o ran yr henoed, y rhai sydd yn wael eu hiechyd, a phobl anabl; ac

b) Yn gwella'r amgylchedd cartref ac yn lliniaru ffactorau anghydraddoldeb iechyd.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ar ôl 'Yn cydnabod' ym mhwynt 3, ychwanegu 'bod yr awdurdodau lleol wedi methu â chadw cofnodion digonol ar gyflwr eu stociau tai, ac yn cydnabod hefyd'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3, ac ailrifo'r pwyntiau sy'n weddill yn unol â hynny:
Yn cychwyn trefnu bod gwybodaeth a chyllid ar gael i hyrwyddo cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer tai perchennog-ddeiliaid o fewn yr amserlen a bennwyd ar gyfer tai cymdeithasol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 26 ; Ymatal 0; Yn erbyn 18; Cyfanswm 44

**Derbyniwyd Gwelliant 1 ac felly gwrthodwyd Gwelliannau 2, 3 + 4.**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 27; Ymatal 0 ;Yn erbyn 19; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.58pm

**************

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mercher, 11 Rhagfyr 2002

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a osodwyd ar 9 Rhagfyr 2002**

- Report of the Business Committee - Proposal to Change Standing Orders - LD1749 Dim copi Cymraeg ar gael

**Dogfennau a osodwyd ar 6 Rhagfyr 2002**

- Adroddiad Archwilio 08-02: Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd - Mwyhau'r Buddion i Gymru - LD1746
- Revised Presiding Office MEG 2002-2003 - LD1748 Dim copi Cymraeg ar gael

**Dogfennau a osodwyd ar 4 Rhagfyr 2002**

- The National Waterfront Museum Swansea: Statement by Jenny Randerson, Minister for Culture, Sport and the Welsh Language, pursuant to Standing Order 19.13 - LD1744 Dim copi Cymraeg ar gael
- Gorchymyn Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru (Awdurdodaeth) 2002 - LD1745